Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

Llythyr Newyddion

Cyhoeddwyd: 9 Mawrth 2007

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Llythyr Newyddion hwn yn cynnwys eitemau am:

   - Aelodaeth y Comisiwn
   - Gweithgareddau arfaethedig
   - Cysylltiadau

AELODAETH

2. Cyflwynodd y Comisiwn y Pumed adroddiad cyfnodol ar etholaethau seneddol a'r adroddiad Cyntaf ar ranbarthau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 31 Ionawr 2005. Daeth Gorchymyn yr Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006 i rym ar 25 Ebrill 2006.

3. Ymddiswyddodd yr Anrhydeddus Meistr Ustus Richards fel Dirprwy Gadeirydd ym mis Hydref 2005 yn sgil ei benodiad i'r Llys Apêl. Cwblhaodd yr Athro Ken George gyfnod ei benodiad ar 31 Mawrth 2006. Mae Mrs Susan Smith wedi'i hailbenodi i wasanaethu ar y Comisiwn hyd 31 Mawrth 2008. Ym mis Rhagfyr 2006, penododd yr Arglwydd Ganghellor yr Anrhydeddus Meistr Ustus Lloyd Jones fel Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Mae un swydd wag ar gyfer Comisiynydd ar hyn o bryd.

4. Er bod Deddf y Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn hwn i'r Comisiwn Etholiadol, nid oes amserlen glir ar gyfer hyn ar hyn o bryd. Adroddodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar ei arolwg o'r Comisiwn Etholiadol ym mis Ionawr 2007. Argymhelliad y Pwyllgor (A17) yw na ddylai'r Comisiwn Etholiadol fod ag unrhyw ran mwyach mewn materion ffiniau etholiadol a dylai darpariaeth Deddf y Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda i ganiatáu trosglwyddo swyddogaethau pennu ffiniau i'r Comisiwn Etholiadol gael ei diddymu. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei hymateb i adroddiad y Comisiwn eto.

Comisiwn Ffiniau i Gymru Tŷ Caradog 1-6 Plas St. Andrews Caerdydd CF10 3BE
Boundary Commission for Wales Caradog House 1-6 St. Andrews Place Cardiff CF10 3BE
☎ 029 20395031 Ffacs/Fax 029 20395250
e-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk e-mail: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk Web Site: www.bcomm-wales.gov.uk
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg
The Commission welcomes correspondence and telephone calls either in English or Welsh

GWEITHGAREDDAU ARFAETHEDIG

5. Hysbyswyd y Comisiwn yn ffurfiol gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru fod yr adolygiad o'r ffin llywodraeth leol yn ardal Cwm-twrch wedi creu anghysonder rhwng y ffin llywodraeth leol a ffin yr etholaeth yn yr ardal. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cynnal Arolwg Interim yn yr ardal hon. Bydd y manylion yn ymwneud â'r Arolwg Interim arfaethedig yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2007.

6. Os oes anghysonderau pellach yn cael eu nodi cyn yr arolwg cyffredinol nesaf (y Chweched), bydd y Comisiwn yn ystyried cynnal arolygon Interim pellach i ddatrys anghysonderau.

GWYBODAETH

7. Mae'r Comisiwn wedi llunio adroddiad blynyddol sy'n nodi manylion gweithgareddau'r Comisiwn. Gellir cael copi o'r llyfryn trwy gysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad isod.

8. Gellir gweld yr adroddiad hwn a gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig â gwaith y Comisiwn ar wefan y Comisiwn ar www.comffin-cymru.gov.uk.

CYSYLLTIADAU

9. Gellir cysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:

Mr E H Lewis
Yr Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd, CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
E-bost: comffin@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk